Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abererch
# Abererch
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 6YU

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Abererch

Mae Ysgol Gynradd Abererch ym mhentref Abererch ger Pwllheli yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i hamgylch. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 81 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 13 oed meithrin, rhan amser. Fe'i rhennir yn dri dosbarth.

Mae cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf oddeutu 7%. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol (19%). Mae tua 67% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r ganran genedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Mawrth 2012, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai yr un flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu, gan ganolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau estynedig. Mae ymddygiad bron pob disgybl y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Fe gynigir ystod o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion, sy'n eu cymell i fwynhau eu gwaith a rhoi o'u gorau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod pob agwedd o waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflwyno'u gwaith yn daclus

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau meddwl o safon uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, ac yn ystyried ac uniaethu â gwahanol safbwyntiau yn ddeallus, er enghraifft wrth drafod testun fel ailgylchu.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol wrth sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio cymariaethau ac ansoddeiriau'n fedrus, er enghraifft wrth gyflwyno sgwrs ddifyr am eu hoff anifeiliaid. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod materion cyfredol, fel pwysigrwydd lleihau'r defnydd o blastig, yn ystyrlon ac aeddfed. Mae bron pob disgybl ar frig yr ysgol yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall.

Mae bron bob un disgybl yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trin a thrafod llyfrau yn hyderus ac yn dwyn i gof gynnwys testunau gwahanol yn wybodus, er enghraifft wrth wneud adolygiadau o'u hoff lyfrau gan Angharad Tomos. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn datblygu eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth ddefnyddio ffynonellau gwahanol yn eu hastudiaeth o Oes Fictoria a chreu adroddiad am y 'Leather Back Turtle'. Mae uwch-fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn datblygu'n llwyddiannus; maent yn rhagfynegi, egluro, cwestiynu a chrynhoi gwybodaeth yn effeithiol iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol, gan amrywio brawddegau yn fedrus. Maent yn cyfoethogi'u gwaith gydag ystod eang o ansoddeiriau syml, cymariaethau ac odl, er enghraifft wrth ffurfio cerdd ar gyfer 'Byw yn yr Ardd'. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, maent yn dewis geirfa amrywiol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, er enghraifft wrth adolygu'r llyfr 'The Wreck of the Zanzibar'. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm ac nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y mwyafrif bob amser yn daclus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth fesur a phwyso llysiau sydd wedi tyfu yng ngardd

yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf dealltwriaeth dda o strategaethau rhif ac maent yn eu defnyddio’n llwyddiannus i ddatrys problemau. Maent yn mesur onglau yn gywir ac yn cyfrifo arwynebedd amrywiaeth o siapau yn fedrus. Yn dilyn arbrofion ar sut i gyflymu’r broses o ymdoddi rhew, maent yn cyflwyno’u gwaith yn briodol mewn dull graff ac yn dehongli'r canlyniadau yn effeithiol. Er hyn, nid yw’r disgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn ddigon cyson ar draws ystod o feysydd eraill.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o’u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn bwydo cyfres o gyfarwyddiadau’n gywir er mwyn symud tegan ar hyd llwybr penodedig. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio cronfa ddata syml yn dda i gofnodi gwybodaeth am daldra aelodau’r dosbarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu’n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno’u gwaith am fywyd yn y chwe degau. Maent yn defnyddio’r rhyngrwyd yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth am agweddau o fywyd yn Oes Fictoria ac yn defnyddio fformiwla yn ddeallus i wneud cyfrifiadau gwerthu a phrynu ym manc yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda am gyfnodau estynedig, gan ddefnyddio strategaethau a meddylfryd o dwf i ddatblygu’n ddysgwyr hyderus a brwdfrydig. O oed cynnar, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i fod yn ddysgwyr llwyddiannus. Maent yn deall sut i wella eu gwaith ac yn cyfeirio’n rheolaidd at y ‘niwronau nerthol’ a’r cymeriadau amrywiol fel ‘Gwenda Gwella’, ‘Cadi Canolbwyntio’ a ‘Twm Trio’ wrth iddynt ymdrechu. Yn ystod eu gwersi, maent yn gwrando’n astud ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar am gyfleoedd i gyfrannu. Maent yn fodlon mentro ac mae llawer yn troi camgymeriad yn darged dysgu defnyddiol. Maent yn cyfrannu’n gadarnhaol iawn tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog y tu mewn i’r dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw’r ffordd garedig ac annwyl iawn y mae llawer o’r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau, gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Datblyga holl ddisgyblion yr ysgol eu dealltwriaeth am bwysigrwydd gwneud penderfyniadau cywir a doeth o ran diogelwch y we a chamddefnyddio sylweddau.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac mae bron pob un yn manteisio’n llawn ar y cyfle i fynegi pryder, i ddiolch ac i gynnig syniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae trawstoriad o aelodau wedi eu hethol i wahanol grwpiau fel y grŵp eco, cyngor ysgol a’r grŵp maeth, ac maent yn cyflawni eu gwaith yn fedrus. Maent yn dylanwadu’n llwyddiannus ar welliannau i’r disgyblion ac yn codi eu hymwybyddiaeth o hawliau’r plentyn yn llwyddiannus. Mae’r rhieni yn rhoi cefnogaeth ariannol i sicrhau bod syniadau’r disgyblion yn cael eu gwireddu, er enghraifft i brynu adnoddau TGCh a datblygu gardd newydd i’r ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed. Trwy gymryd rhan mewn rhaglen gynhwysfawr o redeg yn rheolaidd o amgylch yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol ac fe gasglwyd swm sylweddol i noddi addysg disgybl yn Nepal yn ddiweddar. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel. Maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. Maent yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu gan rannu amcanion dysgu priodol gyda'r disgyblion i sicrhau eu bod yn deall pwrpas y dysgu. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol a chynhaliol. Mae hyn yn galluogi'r staff i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda ac fe reolir ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae athrawon a'r staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn eu holi'n effeithiol i archwilio'u dealltwriaeth. Mae hyn yn eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu a gwerthuso'u hymdrechion yn gyson. Lle'n briodol, mae athrawon hefyd yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ymhellach.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion y Siarter Iaith ac yn ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae datblygu agweddau o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol, sy'n cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion, yn enwedig y rhai o gefndiroedd di-Gymraeg. Yn eu grwpiau teulu, mae disgyblion o bob dosbarth wedi awgrymu gweithgareddau diddorol ar gyfer wythnos 'Cymru Cŵl'. Maent yn cael cyfleoedd da i ddysgu am hen draddodiadau fel casglu calennig a dysgu caneuon traddodiadol Cymreig. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u Cymreictod a'u hunaniaeth yn llwyddiannus.

Mae'r modd trylwyr y mae'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio yn ysgogi ac yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus, fel eu bod yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Fe gynigir ystod o brofiadau dysgu diddorol iddynt, sy'n sbarduno'r gwaith thematig yn llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar ddechrau pob thema, i'r disgyblion gynnig syniadau a dod i benderfyniad ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol y tu mewn a thu allan. Fe ddarperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol ynddynt tuag at ddysgu ac yn eu hannog i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig.

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd Cymraeg a TGCh mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg a rhifedd mor effeithiol ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r staff yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion, sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu profiadau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol a thu hwnt. Er enghraifft, maent wedi ymweld â chanolfan hwylio leol a chydweithio ag asiantaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i ddysgu am fywyd gwyllt, afonydd a diogelwch mewn gorsafoedd trenau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog, yn dangos parch tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac yn ymateb yn gydwybodol i'w gweithgareddau. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol i ofalu am y disgyblion o gwmpas yr ysgol drwy roi cyfrifoldeb i'r rhai hŷn warchod a chwarae gyda'r rhai iau. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac mae ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymateb gydag awch a brwdfrydedd i'r cyfleoedd amrywiol y maent yn eu cael.

Trwy gynnal cyfarfodydd 'Grwpiau Teulu' wythnosol, mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod eu pryderon neu i leisio'u barn am fywyd a gwaith yr ysgol o fewn grŵpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd llwyddiannus iddynt ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn cynnal cyfnodau effeithiol o addoli ar y cyd yn rheolaidd, gan hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin eu medrau ysbrydol a moesol yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd a lles y disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i gasglu gwybodaeth gyfredol am eu cynnydd a'u cyrhaeddiad. Gwneir defnydd buddiol o hyn i dargedu cymorth cyflym i unigolion a grwpiau penodol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol perthnasol. Mae'r rhain yn nodi cryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella ac mae'r athrawon yn ystyried eu cynnwys yn ofalus wrth gynllunio'u gwersi ynghyd ag unrhyw gefnogaeth arbenigol arall sydd ei hangen arnynt. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol yn ofalus ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol ar eu cyfer lle bo angen.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf a defnyddiol gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn iawn. Trwy rannu cylchlythyron, diweddaru gwefan yr ysgol a'r cyfryngau cymdeithasol, mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth gyson i rieni am faterion sy'n ymwneud â digwyddiadau dydd i ddydd ac am beth mae eu plant yn ei ddysgu. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth werthfawr iddynt am adnoddau addysgol y gallent eu defnyddio gartref i gefnogi gwaith eu plant.

Mae gan yr ysgol berthynas effeithiol â'r gymuned leol. Gwneir defnydd llwyddiannus o ystod eang o ymwelwyr i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion. Er enghraifft, mae artistiaid, beirdd, arweinwyr crefyddol ac enwogion Cymreig yn ymweld â'r ysgol yn gyson i rannu eu profiadau a'u doniau arbenigol gyda'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir iddi, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar annog y dysgwyr i gyrraedd safonau academaidd da. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i arwyddair yr ysgol, sef 'Cyfle i bawb lwyddo'. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r modd y mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir ar gyflawniad a lles disgyblion ac mae'n sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus.

Mae gweithdrefnau ar gyfer arfarnu safonau cyfredol yr ysgol yn gynhwysfawr, eang a thrylwyr. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn amlygu'r hyn sydd angen ei wella yn llwyddiannus ac mae wedi ei sefydlu'n gadarn ar ganfyddiadau gweithdrefn fonitro effeithiol. Mae llais y disgybl yn rhan annatod o'r gweithdrefnau hunanarfarnu ac mae arweinwyr yn parchu barn disgyblion ac yn eu hystyried o ddifrif. Nodwedd arbennig o hyn yw'r cynlluniau gwella y mae gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn eu paratoi i nodi'r gwelliannau y maen nhw'n eu hystyried yn bwysig. Mae pob grŵp yn egluro'n glir yr hyn maent am ei wneud, yn gosod meini prawf llwyddiant heriol, yn cyfeirio at gyfrifoldebau ac yn nodi amserlen realistig ar gyfer gweithredu. Mae hyn wedi dylanwadu'n dda ar wella trefniadau amser cinio a datblygu gardd yr ysgol fel adnodd dysgu. Yn yr un modd, ystyrir barn y rhieni yn ofalus. Un enghraifft benodol o sut mae eu syniadau nhw wedi dylanwadu ar drefniadau'r ysgol yw'r drefn a'r amlder y mae disgyblion yn newid eu llyfrau darllen.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu, ac yn cael eu nodi yn fanwl a chlir. Mae'r cynllun yn ddogfen gryno ag iddi nifer addas o flaenoriaethau i weithredu arnynt dros dair blynedd. Mae'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau yn glir, gan nodi'r gweithgareddau monitro a gwerthuso yn effeithiol. Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn amlwg dros nifer o flynyddoedd ac yn cynnwys llwyddiant penodol diweddar wrth wella medrau darllen nifer o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl i reoli perfformiad athrawon. Mae gan y pennaeth, yr athrawon a'r cymorthyddion dargedau clir sy'n cysylltu'n addas â'r meysydd gwella. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon yr addysgu a'r dysgu, a'r dull cyson a ddefnyddir i weithredu strategaethau fel asesu ar gyfer dysgu mewn gwersi. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd addas i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol effeithiol. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith effeithiol gydag ysgolion eraill tebyg ac wedi elwa'n fawr mewn meysydd fel cynllunio ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae hyn wedi arwain yn benodol at wella'r ardaloedd dysgu amrywiol er mwyn ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar. Maent wedi dechrau ymweld â’r dosbarthiadau a chraffu ar waith y disgyblion. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu datblygu yn gwella. Mae’r ysgol wedi paratoi llyfryn defnyddiol iddynt sy’n rhestru enghreifftiau o gwestiynau heriol iddynt ofyn i’r pennaeth. Mae’r llyfryn yn ganllaw defnyddiol iddynt, a’r cwestiynau yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fwy effeithiol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn effeithlon ac mae gwariant yn cysylltu’n dda â’i chynlluniau ar gyfer gwella. Maent yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau a gwella lles disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn arbennig eu medrau darllen a’u hunanhyder.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018